

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Menter a Dysgu

Swyddogaeth Llywodraethwyr Ysgolion

Gorffennaf 2009



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**[www.cynulliadcymru.org](http://www.cynulliadcymru.org)**

Y Pwyllgor Menter a Dysgu  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8018

Ffacs: 029 2089 8021

E-bost: [Enterprise.learning.comm@Wales.gsi.gov.uk](mailto:Enterprise.learning.comm@Wales.gsi.gov.uk)

## Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu am Swyddogaeth Llywodraethwyr Ysgolion

### Rhagarweiniad

1. Cynhaliodd y Pwyllgor Menter a Dysgu ymchwiliad yn ddiweddar i'r Cytundeb Llwyth Gwaith Athrawon ac yn ystod yr ymchwiliad hwn, a arweiniodd at ein hadroddiad, "Rhoi'r Cytundeb Llwyth Gwaith Athrawon ar Waith", a gyhoeddwyd ym mis Medi 2009, nodwyd nifer o bryderon yng nghyswllt swyddogaeth llywodraethwyr ysgolion.
  - Y berthynas a'r cysylltiad rhwng cyrff llywodraethu a'u hawdurdodau addysg lleol a'r cysylltiad rhwng cyrff llywodraethu a Llywodraeth Cymru
  - Y berthynas rhwng llywodraethwyr ysgolion a'u penaethiaid
  - Hyfforddiant i lywodraethwyr ac a ddylai hyfforddiant fod yn orfodol
  - Nifer y swyddi gwag a'r rhesymau drostynt
2. Er mwyn ymchwilio ymhellach i'r materion hyn, cawsom dystiolaeth lafar ar 21 Mai gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'i swyddogion; Llywodraethwyr Cymru; Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau a Chymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon. Cynhaliwyd sesiwn arall ar 18 Mehefin gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru ac Estyn, sy'n gyfrifol am gynnal arolygiadau statudol o holl ysgolion Cymru.
3. Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig gan y cyrff hyn wedi'i chynnwys yn Atodiad 1, ac mae'r trawsgrifiadau o'n cyfarfodydd wedi'u cynnwys yn atodiad 2. Hoffem ddiolch i'r holl dystion am y wybodaeth a gawsom ganddynt. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn crynhoi'r prif faterion a drafodwyd gan y Pwyllgor ac yn gwneud argymhellion.

## Swyddogaeth llywodraethwyr ysgolion

4. Mae dros 23,000 o lywodraethwyr ysgolion yng Nghymru,<sup>1</sup> “gweithlu gwirfoddol aruthrol.” Mae gan lywodraethwyr ysgolion amrywiaeth eang o ddyfletswyddau a phwerau a ddefnyddir i godi safonau cyrhaeddiad addysgol. Maent yn gyfrifol am:
  - **Gyfeiriad strategol yr ysgol**, drwy bennu nodau ac amcanion; polisiau i gyflawni'r nodau a'r amcanion; a thargedau i gyflawni'r nodau a'r amcanion<sup>2</sup>
  - **Craffu ar berfformiad**, drwy fonitro a gwerthuso sut y mae'r ysgol yn ymgynhyrchu at y nodau a'r amcanion ac adolygu'r fframwaith strategol a grëwyd gan y llywodraethwyr
  - **Llywodraethu da**, gan gynnwys materion cydymffurfio, y gyllideb a staff.
5. Nid y llywodraethwyr ysgolion sy'n gyfrifol am reoli'r ysgol o ddydd i ddydd. Cyfrifoldeb y pennaeth yw trefniadaeth a rheolaeth fewnol yr ysgol a rhoi fframwaith strategol y corff llywodraethu ar waith.

## Y cefndir deddfwriaethol

6. Mae swyddogaeth bresennol cyrff llywodraethu'n tarddu o Ddeddf Diwygio Addysg 1988, a gyflwynodd y syniad o ysgol a reolir yn lleol. Rhoddodd y Ddeddf ragor o bwerau i lywodraethwyr wneud penderfyniadau gan y byddai penderfyniadau a wnaed ar lefel yr ysgol, yn hytrach nag ar lefel yr awdurdod addysg lleol, yn gwella safonau cyrhaeddiad. Roedd deddfau dilynol – Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a Deddf Addysg 2002 – yn adeiladu ar yr un model ar gyfer llywodraethu ysgolion.
7. Roedd Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir 2005 yn gosod allan y trefniadau ar gyfer cyfansoddiad cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

## Perfformiad ar hyn o bryd

8. Mae Estyn yn arolygu ysgolion bob chwe blynedd ac mae'r wybodaeth y mae'n ei chasglu yn ystod yr arolygiadau hyn yn rhoi darlun o safonau addysg drwy Gymru gyfan, gan gynnwys darlun o'r modd y mae gwaith llywodraethwyr yn cyfrannu at y broses o arwain a rheoli ysgolion.<sup>3</sup>
9. O ran perfformiad llywodraethwyr ysgolion, mae arolygwyr Estyn yn penderfynu i ba raddau y maent yn helpu i bennu cyfeiriad strategol ysgol; monitro safon y ddarpariaeth yn rheolaidd; a bodloni gofynion cyfreithiol a rheoliadol.

---

<sup>1</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog, Atodiad 1 paragraff 2

<sup>2</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog, Atodiad 1 paragraffau 6-7

<sup>3</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Estyn, Atodiad 1 paragraff 3

10. Mae arolygiad mwyaf diweddar Estyn yn dangos bod tri chwarter o gyrff llywodraethu ysgolion Cymru yn cyflawni'u dyletswyddau'n dda; ac mae mwy nag un o bob deg yn gwneud gwaith eithriadol o dda. Prin yw nifer y gyrff llywodraethu hynny (12 yn wir) sydd â gwendidau difrifol:<sup>4</sup>

- mewn tair ysgol, nid oeddynt yn llwyddo i helpu i bennu cyfeiriad strategol y ddarpariaeth
- mewn chwe ysgol, nid oeddynt yn llwyddo i fonitro safon y ddarpariaeth yn rheolaidd
- mewn naw ysgol, nid oeddynt yn llwyddo i sicrhau bod yr ysgol yn bodloni gofynion cyfreithiol a rheoliadol.

11. Er mai gwaith monitro a gwerthuso perfformiad ysgolion yw un o gyfrifoldebau pwysicaf corff llywodraethu, dangosodd arolygiad Estyn fod gwendidau o ran monitro safon y ddarpariaeth mewn bron traean o ysgolion. Roedd y gyrff llywodraethu a nodwyd naill ai:

- heb sylweddoli bod monitro a gwerthuso'n rhan bwysig o'u swyddogaeth, fel arfer oherwydd nad oeddynt yn ymwybodol o'r newidiadau yn y modd y dylai llywodraethwyr weithredu neu'n
- credu eu bod wedi bod yn monitro ac yn gwerthuso perfformiad yr ysgol ond, mewn gwirionedd, nid oeddynt yn gwneud hynny'n effeithiol.<sup>5</sup>

**12. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i roi arweiniad pellach i lywodraethwyr ysgolion mewn ymateb i Argymhelliad 6 yn ein hadroddiad am Gytundeb Llwyth Gwaith Athrawon. <sup>6</sup> Cytunwn â'r undebau athrawon, fodd bynnag, ei bod hefyd yn briodol cyhoeddi canllawiau ar y modd y gall gyrff llywodraethu ymgymryd â rôl llywodraethu effeithiol yn hytrach na'r 'rôl arweinyddol' a ragwelir ar hyn o bryd.**

13. Yn yr ysgolion cynradd hynny y nododd Estyn fod ganddynt wendidau difrifol, roedd y gwendidau'n ymwneud â methiant y llywodraethwyr i sicrhau bod yr holl bolisiau a'r cynlluniau gweithredu sy'n ofynnol mewn meysydd fel cyfle cyfartal a chydarddoldeb hiliol wedi'u paratoi; neu roeddynt yn ymwneud â diffyg gwybodaeth ym mhrosbectws yr ysgol ac yn yr adroddiadau blynyddol i rieni.

14. Yn yr ysgolion uwchradd lle'r oedd llywodraethwyr yn methu, daeth Estyn i'r casgliad eu bod yn methu'n bennaf gan nad oeddynt wedi sicrhau bod eu hysgolion yn bodloni gofynion cyfreithiol a rheoliadol, ee y gofyniad i addoli ar y cyd yn ddyddiol, neu nid oedd yr ysgol yn cydymffurfio â rhai

---

<sup>4</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Estyn, Atodiad 1 paragraff 13

<sup>5</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Estyn, Atodiad 1 paragraff 18

<sup>6</sup> "Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn ymgynghoriad â Llywodraethwyr Cymru, yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer gyrff llywodraethu ynglŷn â rôl Cadeirydd y Llywodraethwyr, ac yn cynnal arolwg i weld sut y defnyddir trefniadau mentora ar hyn o bryd i gynorthwyo ac i ddatblygu penaethiaid."

o ofynion y cwricwlwm cenedlaethol ee o ran y Gymraeg neu addysg grefyddol.<sup>7</sup>

15. **Rydym yn cytuno ag Estyn<sup>8</sup> fod angen i lywodraethwyr fod â dealltwriaeth dda o gynlluniau cenedlaethol a'r darlun addysgol ehangach ee materion fel tlodi plant, os ydynt am gyfrannu'n effeithiol at drafodaethau ynglyn â'r cwricwlwm cenedlaethol. Rydym yn argymhell y dylid efelychu arfer gorau a bod llywodraethwyr yn ymuno â staff ysgolion mewn sesiynau hyfforddi, a bod llywodraethwyr penodol yn meithrin cysylltiadau cryf ag adrannau'r ysgol i arbenig mewn meysydd cwricwlwm penodol.**

### **Gwybodaeth a dulliau cyfathrebu**

16. Mae perthynas dda rhwng y llywodraethwyr a'r rhieni'n hanfodol i berfformiad da'r ysgol ac yn aml iawn yr ysgolion sy'n llwyddo yw'r rheini sy'n cael cefnogaeth dda gan rieni. Mae'n ofynnol, yn ôl y gyfraith, i gyrrff llywodraethu gyhoeddi adroddiad blynyddol; cynnal noson rieni, cynnig cytundeb rhwng yr ysgol a'r cartref i rieni; a chyhoeddi trefn gwyno.<sup>9</sup>
17. Rydym yn synhwyro bod angen i ysgolion greu mwy o gysylltiadau â'r gymuned ehangach a sicrhau bod gwybodaeth yn haws ei chael. **Rydym yn argymhell y dylid rhoi canllawiau arfer gorau i gyrrff llywodraethu ysgolion ar y modd y gallant ymgysylltu'n fwy effeithiol â'u cymunedau lleol – drwy gysylltu adroddiadau statudol â digwyddiadau, cyngherddau neu arddangosfeydd a fydd yn apelio mwy at eu cynulleidfaoedd.**
18. Mae'n bwysig hefyd i'r llywodraethwyr hwythau fod yn gwbl ymwybodol o faterion fel, er enghraifft, proses ymgynghori cynlluniau newydd, a chymryd rhan ynddynt. Clywsom gan Lywodraethwyr Cymru y gall cyfathrebu fod braidd yn "anghyson ac efallai nad yw bob amser yn digwydd fel y dylai".<sup>10</sup> **Rydym yn argymhell y dylid gwella dulliau o gyfathrebu â llywodraethwyr i sicrhau bod y 23,000 o lywodraethwyr yng Nghymru yn gwybod beth y dylent fod yn ei wneud.**

### **Cadeirydd y Llywodraethwyr**

19. Yn unol â'n hadroddiad blaenorol am "Roi Cytundebau Llwyth Gwaith Athrawon ar Waith", credwn fod rôl cadeirydd y llywodraethwyr yn allweddol yn y broses o sicrhau bod corff llywodraethu'n gweithredu fel cyfaill beirniadol, ac yn llwyddo i lywodraethu yn hytrach nag arwain.
20. Er ein bod yn sylweddoli ei bod yn anodd annog pobl i fod yn gadeiryddion, cytunwn â Llywodraethwyr Cymru<sup>11</sup> fod angen gwneud mwy na dim ond gobeithio bod gan gadeiryddion cyrff llywodraethu'r sgiliau i wneud eu gwaith yn effeithiol. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol

<sup>7</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Estyn, Atodiad 1 paragraff 14

<sup>8</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Estyn, Atodiad 1 paragraffau 25-26

<sup>9</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog, Atodiad 1 paragraff 9

<sup>10</sup> Cofnod y Trafodion colofn 99, y Pwyllgor Menter a Dysgu, 21 Mai 2009

<sup>11</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraethwyr Cymru. Atodiad 1 paragraff 10.1. Gweler hefyd dystiolaeth CLILC paragraff 6

Cymru wrthym fod hyfforddi cadeiryddion ac is-gadeiryddion yn fater pwysig ac yn fater gwahanol i hyfforddi llywodraethwyr ysgolion yn gyffredinol (gweler hefyd baragraffau 27-35).<sup>12</sup> **Rydym yn argymhell felly y dylid ystyried cyflwyno elfen o hyfforddiant gorfodol i gadeiryddion – ac i is-gadeiryddion o bosibl – gyda chyrrff fel Llywodraethwyr Cymru, Cymdeithasau Llywodraethwyr Lleol ac awdurdodau addysg lleol yn cydweithio'n agos i recriwtio a hyfforddi.**

### **Cymorth i Lywodraethwyr Ysgolion**

21. Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn cynnig gwahanol fathau o gymorth.<sup>13</sup>
22. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Llywodraethwyr Cymru i roi cymorth a chynghor annibynnol i bob llywodraethwr. Mae gan Lywodraethwyr Cymru linell gymorth gyfrinachol sydd ar agor yn ystod oriau swyddfa a fin nos. Y mae hefyd yn cyhoeddi amrywiaeth eang o ddogfennau canllaw a thafleuni sydd ar gael am ddim ar eu gwefan,<sup>14</sup> gan gynnwys “Llawlyfr i Lywodraethwyr Ysgolion Cymru”. Mae'n gweithio i adeiladu rhwydweithiau llywodraethwyr ar lawr gwlad, mae wedi sefydlu cymdeithasau lleol ac mae'n cynnal nifer o gynadleddau rhanbarthol yn ogystal â chynhadledd genedlaethol.
23. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ddogfen, “Canllaw Llywodraethwyr Ysgolion i'r Gyfraith”, sydd i'w chyhoeddi yn ystod haf 2009 i gyd-fynd â Llawlyfr Llywodraethwyr Cymru. Mae hefyd yn ariannu cylchlythyr i lywodraethwyr bob tymor, sef “Cadwyn”, a gaiff ei olygu gan Ganolfan Abertawe ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil. Mae'r Ganolfan yn cynnig hyfforddiant i lywodraethwyr, yn cynhyrchu deunyddiau hyfforddi i awdurdodau lleol eu defnyddio mewn rhaglenni hyfforddi llywodraethwyr, ac yn cynnal gwaith ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru.
24. Mae awdurdodau lleol yn cyflogi swyddogion sy'n rhoi cynghor a chymorth i gyrff llywodraethu ac maent yn cydgysylltu â nhw drwy gyfrwng Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru. Trefnir cyfarfod bob tymor ar gyfer swyddogion Llywodraeth Cymru, Llywodraethwyr Cymru a Chanolfan Abertawe i hyrwyddo'r broses o rannu syniadau a phrofiadau.
25. Ar ôl holi Llywodraethwyr Cymru,<sup>15</sup> daethom i'r casgliad fod lefel y cymorth yn amrywio ledled Cymru o un awdurdod lleol i'r llall. **Rydym yn argymhell y dylid monitro lefel y cymorth sydd ar gael ledled Cymru yn ofalus a chymryd camau i unioni unrhyw anghysondeb.**

### **Hyfforddiant**

26. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod cydberthynas rhwng y cyrrff llywodraethu hynny sy'n cael hyfforddiant rheolaidd ac arolygiadau ysgol rhagorol. <sup>16</sup> Testun pryder, felly, oedd yr hyn ddywedodd

---

<sup>12</sup> Cofnod y Trafodion colofn 10, y Pwyllgor Menter a Dysgu, 18 Mehefin 2009

<sup>13</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog, Atodiad 1 paragraffau 11-15

<sup>14</sup> <http://www.governorswales.org.uk/>

<sup>15</sup> Cofnod y Trafodion colofnau 101-102, y Pwyllgor Menter a Dysgu, 21 Mai 2009

<sup>16</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig CLILC, Atodiad 1 paragraff 21

Llywodraethwyr Cymru, sef nad oedd rhai cyrff llywodraethu'n ymwybodol o'u dyletswyddau statudol o hyd mewn perthynas â materion cydymffurfio.<sup>17</sup> Mae hyfforddiant, felly, yn bwysig i sicrhau bod llywodraethwyr ysgolion yn gymwys i wneud eu gwaith – nid dim ond yn gyffredinol, ond o ran cyflawni swyddogaethau unigol, penodol fel aelodau o'r corff llywodraethu.

27. Gan fod llywodraethwyr ysgolion hefyd yn bobl brysur yn eu bywydau ehangach, roeddem am sicrhau bod yr hyfforddiant priodol yn cael ei gyflwyno mewn ffordd sy'n addas ac yn hwylus iddynt hwy, fel gwasanaethau ar-lein. Roeddem yn awyddus i ystyried a ddylai hyfforddiant ganolbwyntio ar gymhwyso llywodraethwyr a chynnig rhyw fath o asesiad neu dystysgrif ar y diwedd, yn enwedig yng nghyswllt cyflwyno llwybrau dysgu 14 i 19, a fydd yn gofyn i lywodraethwyr ddysgu sgiliau newydd mewn perthynas â'r agenda cydweithredu a dysgu meddwl yn strategol am wahanol agweddau ar ddysgu. Ymddengys bod y Gweinidog yn barod i drafod y materion hyn.<sup>18</sup>
28. Mae'n ofynnol, yn ôl y gyfraith, i awdurdodau lleol roi gwybodaeth a hyfforddiant am ddim i lywodraethwyr er mwyn caniatáu iddynt ymgymryd yn effeithiol â'u dyletswyddau. Bydd awdurdodau lleol yn trefnu rhaglenni hyfforddi gan ddefnyddio'u swyddogion eu hunain a hyfforddwyr ar gontract. Clywsom hefyd gan y Gweinidog<sup>19</sup> fod llywodraethwyr Cymru yn awr yn gweithio'n rhanbarthol, gan drefnu i gymdeithasau llywodraethwyr awdurdodau addysg lleol ddod at ei gilydd i sicrhau bod hyfforddiant arbenigol yn cael ei gyflwyno'n ehangach.
29. Rydym yn cytuno ag Estyn<sup>20</sup> fod y cyrff llywodraethu gorau'n gwneud penderfyniadau da ac yn cyfrannu'n effeithiol gan fod ganddynt ddealltwriaeth dda o gynlluniau datblygu ysgol wedi iddynt gael yr hyfforddiant priodol a chael cymorth gan benaethiaid. **Rydym yn argymhell bod hyfforddiant priodol yn cael ei roi i'r cyrff llywodraethu hynny nad ydynt yn bodloni'u rhwymedigaethau statudol. Mae llywodraeth Cymru wedi datblygu rheoliadau i ganiatáu i gyrff llywodraethu ysgolion a cholegau addysg bellach gydweithredu a chydweithio i gyflwyno llwybrau dysgu 14 i 19, ac rydym yn argymhell y dylid defnyddio'r rheoliadau hyn i gyflwyno rhaglen hyfforddi fwy strategol i lywodrethwyr.**
30. Rydym yn cydnabod bod gwahaniaeth barn ynghylch gorfodi llywodraethwyr i fynd ar gyrsiau hyfforddi. Er bod llywodraethwyr Cymru o blaid hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr newydd,<sup>21</sup> roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o'r farn y gallai hyfforddiant gorfodol fod yn rhwystr a fyddai'n gwneud pobl yn amharod i fod yn llywodraethwyr.<sup>22</sup> **Rydym yn argymhell y dylid ystyried o ddifrif a ddylai hyfforddiant i lywodraethwyr ysgolion fod yn orfodol yn ystod y cyfnod cynefino, yn enwedig hyfforddiant i gyrff llywodraethu cyfan,**

<sup>17</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraethwyr Cymru, Atodiad 1 paragraff 7.2

<sup>18</sup> Cofnod y Trafodion colofn 20, y Pwyllgor Menter a Dysgu, 21 Mai 2009

<sup>19</sup> Cofnod y Trafodion colofn 19, y Pwyllgor Menter a Dysgu, 21 Mai 2009

<sup>20</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Estyn, Atodiad 1 paragraff 24

<sup>21</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraethwyr Cymru, Atodiad 1 paragraff 10.2

<sup>22</sup> Cofnod y Trafodion colofn 9, y Pwyllgor Menter a Dysgu, 18 Mehefin 2009



**sef y dull a gafodd ei argymell i ni fel dull effeithiol o weithredu, neu hyfforddiant drwy'r consortia rhanbarthol.** <sup>23</sup>

31. Rydym hefyd yn cytuno â Llywodraethwyr Cymru<sup>24</sup> y byddai'n fuddiol ystyried achredu cyrff llywodraethu (yn hytrach nag achredu llywodraethwyr unigol, a allai greu rhwygiadau). Clywsom fod system marc ansawdd yn cael ei ystyried i hyfforddi cyrff llywodraethu cyfan, a fyddai'n seiliedig ar ddulliau hunanadolygu'n bennaf.<sup>25</sup> Clywsom hefyd gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru <sup>26</sup> y gellir hwyluso llywodraethu da, nid yn gymaint drwy gyfrwng pecynnau hyfforddi penodol, ond drwy gynnwys y corff llywodraethu cyfan mewn sesiynau hunanarfarnu. Cytunodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau a Chymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon y dylid ystyried system achredu fodiwlaid ar gyfer y rheini sy'n rhan o gyrff llywodraethu er mwyn rhoi darlun cenedlaethol o'r modd yr ariennir ysgolion, ac o ystyriaethau adnoddau dynol ac ati.<sup>27</sup> Roeddynt yn credu y byddai'n caniatáu rhywfaint o arbenigedd, a gallai hefyd arwain at ddyfarnu tystysgrif a fyddai'n cael ei gwerthfawrogi gan eraill. Yr elfen o orfodaeth a chostau oedd y ddau brif bryder, fodd bynnag.
32. **Cytunwn y byddai marc ansawdd yn rhoi cyfle da i lywodraethwyr ystyried eu cryfderau a'u gwendidau eu hunain gan nodi meysydd y gellid eu gwella drwy sesiynau datblygu a hyfforddi ychwanegol. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r gwaith o dreialu'r syniad mewn rhai ysgolion.**
33. **Rydym hefyd yn credu y byddai'n werth ystyried y syniad o gael hyd i bartner hyfforddi a allai roi hyfforddiant o'r radd flaenaf i lywodraethwyr. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn trafod â darpar bartneriaid y gwahanol ddulliau posibl o gyflwyno rhaglen hyfforddi i lywodraethwyr.**
34. Yn yr un modd, clywsom gan Estyn ei bod yn "gwbl hanfodol bod awdurdodau'n darparu hyfforddiant cynefino i benaethiaid ar weithio gyda llywodraethwyr."<sup>28</sup> **Rydym yn argymell bod hyfforddiant a chymorth i benaethiaid yn cael ei ystyried fel rhan o'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol i Benaethiaid.**

### **Cyngor Arbenigol**

35. Ar ôl craffu ar dystiolaeth y tystion, roedd yn glir nad oes digon o gyngor arbenigol ar gael i lawer o gyrff llywodraethu ysgolion, yn enwedig mewn meysydd fel Adnoddau Dynol (gan gynnwys cyfraith cyflogaeth) a chanllawiau ar weithdrefnau, yn enwedig drwy gyfrwng y Gymraeg.<sup>29</sup> Mae arbenigedd ym maes Adnoddau Dynol yn allweddol i gadeiryddion

---

<sup>23</sup> Cofnod y Trafodion colofn 134, y Pwyllgor Menter a Dysgu, 21 Mai 2009

<sup>24</sup> Cofnod y Trafodion colofn 72, y Pwyllgor Menter a Dysgu, 21 Mai 2009

<sup>25</sup> Cofnod y Trafodion colofn 74, y Pwyllgor Menter a Dysgu, 21 Mai 2009

<sup>26</sup> Cofnod y Trafodion colofn 12, y Pwyllgor Menter a Dysgu, 18 Mehefin 2009

<sup>27</sup> Cofnod y Trafodion colofn 131, y Pwyllgor Menter a Dysgu, 21 Mai 2009

<sup>28</sup> Cofnod y Trafodion colofn 75, y Pwyllgor Menter a Dysgu, 18 Mehefin 2009

<sup>29</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau/Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, Atodiad 1 a Chofnod y Trafodion colofnau 139-143

Llywodraethwyr, er enghraifft, o gofio eu rôl yn y Cytundeb Llwyth Gwaith ac o ran cynorthwyo'r pennaeth.

36. Tynnodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau a Chymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon ein sylw at y ffaith bod penaethiaid a llywodraethwyr, mewn ambell achos, wedi cael cyngor anghywir a fyddai wedi creu trafferthion cyfreithiol pe baent wedi'i ddilyn. Roeddent yn dadlau bod y duedd i awdurdodau addysg lleol fabwysiadu strwythur gorfforaethol wedi arwain at ddiflaniad timau adnoddau dynol addysg sydd â gwybodaeth arbenigol am y fframwaith ddeddfwriaethol yn ymwneud ag ysgolion. Dadl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru oedd bod angen i'r adran sy'n rhoi cymorth i lywodraethwyr a'r adran sy'n rhoi cyngor i ysgolion ym maes Adnoddau Dynol yn mabwysiadu dulliau cydlynol i sicrhau bod cyngor arbenigol ar gael.<sup>30</sup>
37. **Rydym yn argymhell y dylid sicrhau bod cyngor arbenigol ar gael i bob corff llywodraethu ysgolion, yn Gymraeg a Saesneg. Rydym yn rhagweld y bydd gan awdurdodau addysg lleol ran allweddol yn y broses o ddarparu cymorth arbenigol i lywodraethwyr, yn enwedig llywodraethwyr ysgolion llai.**

#### **Perthynas â phenaethiaid**

38. Mae penaethiaid yn llywodraethwyr yn awtomatig oni bai eu bod yn dewis fel arall.<sup>31</sup> Bydd llywodraethwyr yn cael cyngor gan eu pennaeth ond rhaid iddynt hwythau, yn eu tro, gynnig cefnogaeth a beirniadaeth adeiladol, a gofyn cwestiynau anodd am berfformiad, cynlluniau a rheolaeth ariannol yr ysgol. Ni ddylai'r berthynas fod yn rhy gyfforddus; dylent fod yn "gyfeillion beirniadol".<sup>32</sup>
39. Cafwyd tystiolaeth anecdotaidd gan Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau a Chymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon a awgrymai bod y berthynas rhwng llywodraethwyr ac arweinwyr y rhan helaeth o ysgolion Cymru yn gadarnhaol ac yn effeithiol gan sicrhau bod myfyrwyr yn cael addysg o safon. Os yw'r berthynas yn anodd neu'n chwalu, roedd y cyrff hyn yn credu bod cymaint o fai ar arweinydd yr ysgol â'r corff llywodraethu. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mai'r rheswm dros hyn oedd nad oedd y pennaeth a'r corff llywodraethu bob amser yn deall swyddogaethau'i gilydd.<sup>33</sup> Yn ôl Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, os nad yw'r berthynas rhwng y pennaeth a'r llywodraethwyr, yn enwedig y cadeirydd, yn dechrau'n dda, bydd y canlyniadau i'w gweld maes o law.<sup>34</sup>
40. Mae pryderon, fodd bynnag, ynghylch faint o amser sydd gan benaethiaid ar gyfer arwain a rheoli ac ynghylch y cydbwysedd rhwng eu bywyd a'u gwaith.<sup>35</sup>

<sup>30</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig CLILC, Atodiad 1 paragraff 26

<sup>31</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog, Atodiad 1 paragraff 4

<sup>32</sup> Cofnod y Trafodion colofn 40, y Pwyllgor Menter a Dysgu, 18 Mehefin 2009

<sup>33</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig CLILC, Atodiad 1 paragraff 4

<sup>34</sup> Cofnod y Trafodion colofn 15, y Pwyllgor Menter a Dysgu, 18 Mehefin 2009

<sup>35</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraethwyr Cymru, Atodiad 1 paragraff 3.2, tystiolaeth ysgrifenedig y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau/Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, Atodiad 1

41. Roedd tystiolaeth anecdotaidd a gyflwynwyd gan Lywodraethwyr Cymru<sup>36</sup> yn awgrymu mai dim ond drwy ymgymryd â gwaith cyflenwi'u hunain roedd rhai penaethiaid wedi medru rhoi amser cynllunio, paratoi ac asesu i athrawon yr ysgol. Hyd yn oes os yw'r achosion hyn yn brin, mae'n fater sy'n peri pryder, ac mae'n tanlinellu'r angen i gael cyllid llawn i gynnal y Cytundeb Llwyth Gwaith Athrawon.
42. Clywsom gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru ei bod yn bwysig i benaethiaid gynnwys eu dirprwyon yn y gwaith o lywodraethu ysgolion at ddibenion cynllunio olyniaeth.<sup>37</sup> Ond yng nghyd-destun newidiadau yn y cwricwlwm, a'r cyfyngiadau cyllidebol sydd yn yr arfaeth, rydym yn rhagweld y bydd cyrff llywodraethu'n wynebu dewisiadau anodd. Rydym yn poeni y bydd rhai ysgolion yn lleihau maint y tîm arwain er mwyn arbed arian ond, yn y pen draw, bydd yn fwy costus o ran cynyddu llwyth gwaith gweddill y tîm. Mewn ychydig o ysgolion, bydd y broses yn arwain at ddileu'r holl swyddi dirprwyon, a byddai goblygiadau difrifol i lwyth gwaith penaethiaid pe bai hynny'n digwydd – pwynt a wnaed hefyd gan Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau a Chymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon.<sup>38</sup>
43. Clywsom fod y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau a Chymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon wedi cyhoeddi papur canllaw yn dwyn y teitl , "What Governing Bodies should expect from School Leaders and What School Leaders should expect from Governing Bodies".<sup>39</sup> Yn dilyn trafodaethau yn Lloegr y llynedd am effeithlonrwydd cyrff llywodraethu a phryderon am lwyth gwaith arweinwyr ysgolion. Mae papur canllaw tebyg wedi'i ddrafftio ar gyfer Cymru ar ôl ymgynghori â Llywodraethwyr Cymru ac undebau eraill, er na chaiff ei gyhoeddi nes y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei arweiniad diwygiedig ar y gyfraith yng nghyswllt cyrff llywodraethu. **Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei arweiniad diwygiedig ar y gyfraith yng nghyswllt cyrff llywodraethu cyn gynted â phosibl.**
44. Er y gall llywodraethwyr ymdrechu i ysgafnhau, a monitro, baich penaethiaid ac uwch arweinwyr, rydym yn sylweddoli mai'r penaethiaid eu hunain sy'n penderfynu ar eu llwyth gwaith eu hunain. Dyma ddywedodd y penaethiaid wrthym yn ein sesiwn dystiolaeth. Er hyn, mae angen i gyrff llywodraethu ysgolion gydymffurfio'n fwy effeithiol â'u cyfrifoldeb statudol i wella'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith penaethiaid a rhoi mwy o amser iddynt ymgymryd â'u gwaith fel penaethiaid. **Rydym yn argymhell bod pob corff llywodraethu'n cymryd camau i leihau llwyth gwaith penaethiaid drwy drefnu dyddiadau ac amseroedd cyfarfodydd sy'n gyfleus i'r pennaeth, drwy leihau nifer yr adroddiadau ysgrifenedig y gofynnir iddynt eu cynhyrchu, pan fo modd, a drwy ystyried dulliau eraill o gael cymorth gweinyddol ychwanegol i'r tîm arwain ysgol yn unol â'u anghenion. Dylai Llywodraethwyr Cymru, mewn partneriaeth â'r cymdeithasau**

<sup>36</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraethwyr Cymru, Atodiad 1 paragraff 9.2

<sup>37</sup> Cofnod y Trafodion colofn 16, y Pwyllgor Menter a Dysgu, 18 Mehefin 2009

<sup>38</sup> Cofnod y Trafodion colofn 126, y Pwyllgor Menter a Dysgu, 21 Mai 2009

<sup>39</sup> Wedi'i gynnwys yn nhystiolaeth ysgrifenedig y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau/Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, Atodiad 2.

**athrawon, ystyried ysgrifennu eto at gadeiryddion cyrff llywodrethu i'w hatgoffa o arfer da yn y maes hwn.**

### **Swyddogaeth y clerc**

45. Rhaid i'r holl gyrff llywodraethu benodi clerc.<sup>40</sup> Swyddogaeth y clerc yw gweithredu nid yn unig fel ysgrifennydd y corff llywodraethu - yn paratoi agendâu ac yn cymryd cofnodion – ond dylai hefyd roi cyngor ynghylch gweithdrefnau a materion cyfreithiol (yn hytrach na rhoi arweiniad ar benderfyniadau'r corff llywodraethu). Mae'n swydd bwysig ac mae angen cefnogaeth dda i'w chyflawni. Yn benodol, y clerc sy'n sicrhau bod llywodraethwyr yn cyflawni eu dyletswydd gofal yn ôl y gyfraith tuag at arweinwyr ysgolion mewn perthynas â chydymffurfio â'r Cytundeb Llwyth Gwaith. Gall y clerc fod yn gysylltiedig â'r ysgol neu'r awdurdod addysg lleol, ac mae modd i wahanol bobl rannu'r swydd. Clywsom gan Lywodraethwyr Cymru eu bod yn teimlo y byddai'n well pe na bai'r clerc yn cael ei gyflogi yn yr ysgol, er nad yw hynny bob amser yn bosibl (mewn ardloedd gwledig er enghraifft), ac mae lefel y cymorth a gynigir gan wahanol awdurdodau lleol yn amrywio'n arw.<sup>41</sup> Mewn rhai o dalgylchoedd ysgolion, gall clerc wasanaethu'r holl ysgolion cynradd yn yr ardal honno. Nid oes gwasanaeth clericio o gwbl mewn ambell awdurdod lleol a gall fod yn anodd i ysgolion recriwtio clercod cyrff llywodraethu.<sup>42</sup>

**46. O gofio swyddogaeth allweddol y clercod, rydym yn argymhell y dylid adolygu eu perfformiad o ran y modd y maent yn ymgymryd yn briodol â'u swyddogaethau a safon eu gwaith, a dylid archwilio dulliau arloesol o ddarparu hyfforddiant a chymorth iddynt.**

47. Teimlai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y dylid talu clercod yn broffesiynol er mwyn datblygu'r swydd i greu rôl gymwysedig briodol. I wneud hyn, byddai angen yr adnoddau priodol gan lywodraeth Cymru a byddai angen i ysgolion bach fabwysiadu dulliau eraill o weithio.<sup>43</sup>

48. Roedd yn ddiddorol clywed<sup>44</sup> fod Llywodraethwyr Cymru wedi cael arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru am y tro cyntaf eleni i drefnu gwobr i'w chyflwyno i glerc eithriadol yng Nghymru, a chafodd y penderfyniad hwn groeso brwd. **Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu gwobr flynyddol i glerc eithriadol.**

### **Ffederasiwn**

49. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynhyrchu rheoliadau drafft a fydd yn caniatáu i gyrff llywodraethu dwy neu ragor o ysgolion a gynhelir i "ffederaleiddio" o dan un corff llywodraethu unigol. Dywedodd y Gweinidog wrthym y disgwylir y rheoliadau terfynol ym mis Medi 2009.<sup>45</sup> Credwn y byddant yn bwysig i ddyfodol ysgolion gwledig yn enwedig, ond mae'r ffaith bod rhanddeiliaid amrywiol yn ansicr ynghylch eu rôl yn y

<sup>40</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog, Atodiad 1 paragraff 4

<sup>41</sup> Cofnod y Trafodion colofn 89, y Pwyllgor Menter a Dysgu, 21 Mai 2009

<sup>42</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig CLILC, Atodiad 1 paragraff 15

<sup>43</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig CLILC, Atodiad 1 paragraff 16

<sup>44</sup> Cofnod y Trafodion colofn 90, y Pwyllgor Menter a Dysgu, 21 Mai 2009

<sup>45</sup> Cofnod y Trafodion colofn 15, y Pwyllgor Menter a Dysgu, 21 Mai 2009

broses ffederaleiddio yn peri pryder i ni.<sup>46</sup> **Teimlwm fod ansicrwydd o hyd ynglŷn â phob mathau o faterion llywodraethu'n gysylltiedig â gweithio fel consortia ac nid yw swyddogaeth benodol llywodraethwyr yn y broses o ffederaleiddio cyrff llywodraethu ac ysgolion yn eglur. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro swyddogaeth cyrff llywodraethu ysgolion yn y broses ffederaleiddio a sicrhau bod llywodraethwyr yn cael cymorth i ddefnyddio'u pwerau'n effeithiol yn y fframwaith rheoleiddio newydd.**

### **Recriwtio a swyddi gwag**

50. Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog<sup>47</sup> yn dangos bod nifer y llywodraethwyr mewn ysgolion cynradd wedi gostwng, er bod hynny wedi digwydd oherwydd bod ysgolion wedi cau. Mae nifer y swyddi gwag wedi codi a gostwng ond mae'r ganran ddiweddaraf a gofnodwyd, sef 6.2%, o fewn yr amrediad arferol.
51. Mae nifer y llywodraethwyr mewn ysgolion uwchradd wedi cynyddu. Roedd ar ei uchaf ym 1999/2000 pan oedd 4,253 o lywodraethwyr ond mae'r nifer wedi gostwng ychydig ers hynny. Mae nifer y swyddi gwag fel arfer yn is nag ydyw mewn ysgolion cynradd, 5.6% oedd y ganran yn 2007/08.
52. Mae nifer y llywodraethwyr mewn ysgolion arbennig wedi bod braidd yn anghyson, a phrin y mae nifer yr ysgolion hynny wedi newid. Mae nifer swyddi gwag fel arfer ychydig yn uwch nag mewn ysgolion cynradd neu uwchradd ond y ffigwr ddiweddaraf yw 4.8%.
53. Mae'r gwaith o lywodraethu ysgolion wedi'i seilio ar yr egwyddor y dylai'r corff llywodraethu gynrychioli'r ysgol a'r gymuned ehangach y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu. Gan hynny, dylai aelodau pob corff llywodraethu gynnwys rhieni, athrawon, staff nad ydynt yn dysgu, yr awdurdod addysg lleol a'r gymuned leol (ac eithrio ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr).
54. Nid yw nifer y swyddi gwag ledled Cymru yn peri gofid i ni cyhyd ag y gellir eu rheoli a bod y nifer yn parhau i ostwng yn gyffredinol. Fodd bynnag, roedd clywed bod y nifer yn amrywio'n eang mewn ardaloedd mwy trefol fel Caerdydd, lle mae nifer fawr o ysgolion, yn peri pryder i ni. Fel rheol gyffredinol, mae'n haws recriwtio llywodraethwyr mewn ardaloedd cymharol ffyniannus ond mewn ardaloedd lle mae amddifadedd economaidd sylweddol, mae'n anoddach eu recriwtio, yn enwedig rhiant-lywodraethwyr. Mae'n eironig mai dyma'r union ysgolion, yn aml iawn, y mae angen ennyn diddordeb y gymuned ynddynt.<sup>48</sup>
55. **Rydym yn argymhell bod nifer y swyddi gwag ar gyrff llywodraethu'n parhau i gael ei fonitro'n ofalus a bod awdurdodau addysg lleol yn sicrhau bod y swyddi'n cael eu llenwi i adlewyrchu'n well yr holl fuddiannau gwahanol yn yr ysgol, yn enwedig pobl sy'n gyswllt rhwng yr ysgol, y cartref a'r gymuned leol. Un ffordd ddefnyddiol o**

<sup>46</sup> Cofnod y Trafodion colofnau 47-54 a 79-84, y Pwyllgor Menter a Dysgu, 21 Mai 2009

<sup>47</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog, Atodiad 1, paragraffau 17-19

<sup>48</sup> Cofnod y Trafodion colofn 19, y Pwyllgor Menter a Dysgu, 18 Mehefin 2009

wneud hyn fyddai annog aelodau'r cyngor lleol i recriwtio yn eu hardaloedd.

56. **Clywsom gan y Gweinidog fod yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd yn Lloegr wedi sefydlu gweithgor i ystyried dulliau o wneud cyrff llywodraethu'n fwy effeithiol. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio gwaith y grŵp hwn, yn enwedig ei waith yn ymwneud â maint cyrff llywodraethu ac arfer da o ran recriwtio.**

### Casgliadau

57. Mae corff llywodraethu effeithiol yn helpu i lywio cyfeiriad ysgol yn y dyfodol. Mae ganddo weledigaeth glir sy'n pwysleisio cymeriad ac ethos unigryw'r ysgol, ac mae'n cymryd rhan mewn trafodaethau trylwyr a heriol ynghylch y ffordd orau o sicrhau safonau cyrhaeddiad addysgol uchel a rhagoriaeth i bawb.
58. Ym mwyafrif helaeth yr achosion yng Nghymru, mae llywodraethwyr ysgolion yn ymgymryd yn effeithiol ac yn effeithlon â'u swyddogaethau o ran craffu a sicrhau atebolrwydd. Yr her yn awr yw mynd i'r afael â'r lleiafrif nad ydynt yn perfformio cystal ag y dylent. Hyderwn y bydd yr argymhellion yn yr adroddiad hwn, yn cyfrannu rywfaint at y broses o unioni'r anghysondeb hwn.
59. Rydym yn sylweddoli bod gan gyrff llywodraethu eisoes lawer iawn o gyfrifoldebau a bod eu llwyth gwaith yn drwm. Mae'n her aruthrol i lywodraethwyr gwirfoddol gyflawni eu holl swyddogaethau, ac maent yn ysgwyddo baich sylweddol. Fodd bynnag, byddem yn dadlau'n bod yn ymddiried mewn llywodraethwyr ysgolion ac, o'r herwydd, rydym hefyd yn disgwyl canlyniadau.
60. Os yw cyrff llywodraethu, yn wir, yn cyflawni'u dyletswyddau'n effeithiol, yna byddem yn disgwyl i hynny ei amlygu'i hun yn llwyddiant addysgol eu hysgolion. **Y gwir brawf o effeithiolrwydd llywodraethwyr ysgolion fydd gweld perfformiad disgyblion ledled y wlad yn gwella yn yr hirdymor, ac rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn craffu ar y cysylltiad hwnnw i sicrhau bod cydberthynas rhwng llywodraethu da a chyrhaeddiad addysgol.**
61. I gloi, fel y nodwyd ym mharagraff 9, bydd Estyn yn arolygu ysgolion a'u cyrff llywodraethu bob chwe blynedd, er i ni glywed y bydd y system yn gwella yn 2010.<sup>49</sup> **Gall ysgolion newid yn sylweddol yn ystod y chwe blynedd rhwng un arolygiad a'r llall, ac mae hynny'n peri pryder i ni. Rydym yn argymhell y dylid rhoi cyfrifoldeb ychwanegol i'r awdurdod addysg lleol i fonitro a gwerthuso'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn ei ysgolion, efallai drwy gyfrwng clerod y cyrff llywodraethu, ac y dylid sicrhau bod digon o arian ar gael ar gyfer hynny.**

---

<sup>49</sup> Cofnod y Trafodion colofn 93 a 98, y Pwyllgor Menter a Dysgu, 18 Mehefin 2009

## **Crynodeb o'r Argymhellion**

**Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i roi arweiniad pellach i lywodraethwyr ysgolion mewn ymateb i Argymhelliad 6 yn ein hadroddiad am Gytundeb Llwyth Gwaith Athrawon. Cytunwn â'r undebau athrawon, fodd bynnag, ei bod hefyd yn briodol cyhoeddi canllawiau ar y modd y gall cyrff llywodraethu ymgymryd â rôl llywodraethu effeithiol yn hytrach na'r 'rôl arweinyddol' a ragwelir ar hyn o bryd.**

**Rydym yn cytuno ag Estyn fod angen i lywodraethwyr fod â dealltwriaeth dda o gynlluniau cenedlaethol a'r darlun addysgol ehangach ee materion fel tloedi plant, os ydynt am gyfrannu'n effeithiol at drafodaethau ynglyn â'r cwricwlwm cenedlaethol. Rydym yn argymhell y dylid efelychu arfer gorau a bod llywodraethwyr yn ymuno â staff ysgolion mewn sesiynau hyfforddi, a bod llywodraethwyr penodol yn meithrin cysylltiadau cryf ag adrannau'r ysgol i arbenigo mewn meysydd cwricwlwm penodol.**

**Rydym yn argymhell y dylid rhoi canllawiau arfer gorau i gyrff llywodraethu ysgolion ar y modd y gallant ymgysylltu'n fwy effeithiol â'u cymunedau lleol - drwy gysylltu adroddiadau statudol â digwyddiadau, cyngherddau neu arddangosfeydd a fydd yn apelio mwy at eu cynulleidfaoedd.**

**Rydym yn argymhell y dylid gwella dulliau o gyfathrebu â llywodraethwyr i sicrhau bod y 23,000 o lywodraethwyr yng Nghymru yn gwybod beth y dylent fod yn ei wneud.**

**Rydym yn argymhell felly y dylid ystyried cyflwyno elfen o hyfforddiant gorfodol i gadeiryddion - ac i is-gadeiryddion o bosibl - gyda chyrff fel Llywodraethwyr Cymru, Cymdeithasau Llywodraethwyr Lleol ac awdurdodau addysg lleol yn cydweithio'n agos i recriwtio a hyfforddi.**

**Rydym yn argymhell y dylid monitro lefel y cymorth sydd ar gael ledled Cymru yn ofalus a chymryd camau i unioni unrhyw anghysondeb.**

**Rydym yn argymhell bod hyfforddiant priodol yn cael ei roi i'r cyrff llywodraethu hynny nad ydynt yn bodloni'u rhwymedigaethau statudol. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu rheoliadau i ganiatáu i gyrff llywodraethu ysgolion a cholegau addysg bellach gydweithredu a chydweithio i gyflwyno llwybrau dysgu 14 i 19, ac rydym yn argymhell y dylid defnyddio'r rheoliadau hyn i gyflwyno rhaglen hyfforddi fwy strategol i lywodrethwyr.**

**Rydym yn argymhell y dylid ystyried o ddifrif a ddylai hyfforddiant i lywodraethwyr ysgolion fod yn orfodol yn ystod y cyfnod cynefino, yn enwedig hyfforddiant i gyrff llywodraethu cyfan, sef y dull a gafodd ei argymhell i ni fel dull effeithiol o weithredu, neu hyfforddiant drwy'r consortia rhanbarthol.**

**Cytunwn y byddai marc ansawdd yn rhoi cyfle da i lywodraethwyr ystyried eu cryfderau a'u gwendidau eu hunain gan nodi meysydd y gellid eu gwella drwy sesiynau datblygu a hyfforddi ychwanegol. Rydym**

yn annog Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r gwaith o dreialu'r syniad mewn rhai ysgolion.

Rydym hefyd yn credu y byddai'n werth ystyried y syniad o gael hyd i bartner hyfforddi a allai roi hyfforddiant o'r radd flaenaf i lywodraethwyr. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn trafod â darpar bartneriaid y gwahanol ddulliau posibl o gyflwyno rhaglen hyfforddi i lywodraethwyr.

Rydym yn argymhell bod hyfforddiant a chymorth i benaethiaid yn cael ei ystyried fel rhan o'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol i Benaethiaid.

Rydym yn argymhell y dylid sicrhau bod cyngor arbenigol ar gael i bob corff llywodraethu ysgolion, yn Gymraeg a Saesneg. Rydym yn rhagweld y bydd gan awdurdodau addysg lleol ran allweddol yn y broses o ddarparu cymorth arbenigol i lywodraethwyr, yn enwedig llywodraethwyr ysgolion llai.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei arweiniad diwygiedig ar y gyfraith yng nghyswllt cyrff llywodraethu cyn gynted â phosibl.

Rydym yn argymhell bod pob corff llywodraethu'n cymryd camau i leihau llwyth gwaith penaeithiaid drwy drefnu dyddiadau ac amseroedd cyfarfodydd sy'n gyfleus i'r pennaeth, drwy leihau nifer yr adroddiadau ysgrifenedig y gofynnir iddynt eu cynhyrchu, pan fo modd, a drwy ystyried dulliau eraill o gael cymorth gweinyddol ychwanegol i'r tîm arwain ysgol yn unol â'u anghenion. Dylai Llywodraethwyr Cymru, mewn partneriaeth â'r cymdeithasau athrawon, ystyried ysgrifennu eto at gadeiryddion cyrff llywodrethu i'w hatgoffa o arfer da yn y maes hwn.

O gofio swyddogaeth allweddol y clercod, rydym yn argymhell y dylid adolygu eu perfformiad o ran y modd y maent yn ymgymryd yn briodol â'u swyddogaethau a safon eu gwaith, a dylid archwilio dulliau arloesol o ddarparu hyfforddiant a chymorth iddynt.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu gwobr flynyddol i glerc eithriadol.

Teimlwm fod ansicrwydd o hyd ynglŷn â phob mathau o faterion llywodraethu'n gysylltiedig â gweithio fel consortia ac nid yw swyddogaeth benodol llywodraethwyr yn y broses o ffederaleiddio cyrff llywodraethu ac ysgolion yn eglur. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro swyddogaeth cyrff llywodraethu ysgolion yn y broses ffederaleiddio a sicrhau bod llywodraethwyr yn cael cymorth i ddefnyddio'u pwerau'n effeithiol yn y fframwaith rheoleiddio newydd.

Rydym yn argymhell bod nifer y swyddi gwag ar gyrff llywodraethu'n parhau i gael ei fonitro'n ofalus a bod awdurdodau addysg lleol yn sicrhau bod y swyddi'n cael eu llenwi i adlewyrchu'n well yr holl fuddiannau gwahanol yn yr ysgol, yn enwedig pobl sy'n gyswllt rhwng yr ysgol, y cartref a'r gymuned leol. Un ffordd ddefnyddiol o wneud hyn fyddai annog aelodau'r cyngor lleol i recriwtio yn eu hardaloedd.



**Clywsom gan y Gweinidog fod yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd yn Lloegr wedi sefydlu gweithgor i ystyried dulliau o wneud cyrff llywodraethu'n fwy effeithiol. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio gwaith y grŵp hwn, yn enwedig ei waith yn ymwneud â maint cyrff llywodraethu ac arfer da o ran recriwtio.**

**Y gwir brawf o effeithiolrwydd llywodraethwyr ysgolion fydd gweld perfformiad disgyblion ledled y wlad yn gwella yn yr hirdymor, ac rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn craffu ar y cysylltiad hwnnw i sicrhau bod cydberthynas rhwng llywodraethu da a chyrhaeddiad addysgol.**

**Gall ysgolion newid yn sylweddol yn ystod y chwe blynedd rhwng un arolygiad a'r llall, ac mae hynny'n peri pryder i ni. Rydym yn argymhell y dylid rhoi cyfrifoldeb ychwanegol i'r awdurdod addysg lleol i fonitro a gwerthuso'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn ei ysgolion, efallai drwy gyfrwng clercod y cyrff llywodraethu, ac y dylid sicrhau bod digon o arian ar gael ar gyfer hynny.**

## **Atodiad 1 – Tystiolaeth ysgrifenedig**

### **Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau a Chymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon**

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=129008&ds=5/2009>

### **Estyn**

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=129066&ds=5/2009>

### **Llywodraethwyr Cymru**

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=128975&ds=5/2009>

### **Llywodraeth Cynulliad Cymru**

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=129316&ds=5/2009>

### **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (cyflwynwyd ar y cyd)**

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=132561&ds=6/2009>

## **Atodiad 2 – Trawsgrifiad o'r dystiolaeth lafar**

### **21 Mai 2009**

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=131058&ds=5/2009>

### **18 Mehefin 2009**

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=134275&ds=7/2009>